



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol

2020-21



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2021.

Trwyddedir y wybodaeth hon dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/>.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU, chc.cymru@cbhc.gov.uk.

OGL

Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad	3
1.1. Hysbysiad cydymffurfio	3
1.2. Fformat yr Adroddiad Blynyddol hwn	3
2. Uchafbwyntiau.....	4
2.1. Parhaodd ein gwasanaeth ymholiadau dwyieithog ar-lein	4
2.2. Parhaodd y staff i wella eu sgiliau Cymraeg	4
2.3. Sefydlwyd 'Sgwrs dros Baned' wythnosol	4
2.4. Cymerwyd rhan yn yr Eisteddfod AmGen.....	4
2.5. Defnyddiwyd ein hadnoddau ar gyfer cyfres 'Hewlfa Drysor' S4C	5
2.6. Hyrwyddwyd Diwrnod Hawliau'r Gymraeg	5
2.7. Darparwyd llywodraethu da a sicrhawyd gwelliannau parhaus.....	5
3. Blaenoriaethau ar gyfer 2020-21	6
3.1. Parhau i gefnogi staff i'w galluogi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg..	6
3.2. Parhau i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i'r staff	6
3.3. Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector treftadaeth	6
4. Cydymffurfio a hyrwyddo.....	7
4.1. Darparu Gwasanaethau (Safonau 1-9; 11-14; 16-17; 19-22; 24-34; 36; 43-48; 51-55; 57-60; 63-66; 72-73A; 75-80; 82)	7
4.2. Llunio Polisi (Safonau 84-89; 91-93)	9
4.3. Gweithredol (Safonau 94-108; 110-12; 114-17; 120-33; 135-39)	10
4.4. Cadw Cofnodion (Safonau 141-48).....	10
4.5. Atodol (Safonau 149-68)	11
5. Adrodd statudol	12
5.1. Cwynion	12
5.2. Sgiliau Cymraeg y staff	12
5.3. Hyfforddiant.....	12
5.4. Hyfforddiant a ddarparwyd yn y Gymraeg	12
5.5. Recriwtio	13
6. Blaenoriaethau ar gyfer 2021-22	14
6.1. Parhau i gefnogi'r staff	14
6.2. Parhau i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i'r staff	14
6.3. Adolygu ein gwasanaethau cyfieithu.....	14
6.4. Hybu defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector treftadaeth	14
Atodiad 1: Rhestr wirio hunanreoleiddio	15

1. Cyflwyniad

Cynhychir yr Adroddiad Blynyddol hwn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

1.1. Hysbysiad cydymffurfio

Derbyniodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ('y Comisiwn') ei hysbysiad cydymffurfio ar gyfer Safonau'r Gymraeg ym mis Gorffennaf 2016. Daeth y rhan fwyaf o'r safonau i rym ar 25 Ionawr 2017. Y dyddiad gosod ar gyfer gweddill y safonau (2, 3, 21, 48, 52 a 101-07) oedd 25 Gorffennaf 2017.

1.2. Fformat yr Adroddiad Blynyddol hwn

Ym mis Ebrill 2018, darparodd Comisiynydd yr Iaith dempled ar gyfer hunanreoleiddio. Defnyddiwyd y templed hwn gan Grŵp Monitro Iaith Gymraeg y Comisiwn yn sail i Adroddiad Blynyddol y tair blynedd ddiwethaf, ac rydym wedi parhau â'r arfer hwn. (Gweler Atodiad 1 am y rhestr wirio a gwblhawyd gennym ar gyfer 2020-21.)

2. Uchafbwyntiau

Y cyfnod adrodd 1 Ebrill 2020 hyd 31 Mawrth 2021 oedd y bedwaredd flwyddyn lawn i'r Comisiwn o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Prif nodweddion y flwyddyn oedd y pandemig COVID-19 a gweithio gartref. Yn yr adroddiad hwn nodwn sut y bu i ni ymateb i'r cyfyngiadau a sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth dwyieithog a helpu'r staff i gydymffurfio â'r Safonau.

2.1. Parhaodd ein gwasanaeth ymholiadau dwyieithog ar-lein

Mae ein hystafell ddarllen wedi bod ar gau ers i'r cyfnod clo ddechrau ym mis Mawrth 2020, ond parhawyd i ateb ymholiadau o bell. Eleni roedd 9.7% o'r ymholiadau yn y Gymraeg. Roedd hyn tua 1.2% yn uwch nag yn 2015-16 ond yn is na'r 20% o ymholiadau Cymraeg a dderbyniwyd yn 2019-20. Gobeithiwn weld y ganran yn codi eto pan fydd pethau'n ôl fel yr oeddynt.

2.2. Parhaodd y staff i wella eu sgiliau Cymraeg

Er eu bod yn gweithio gartref, parhaodd un rhan o dair (29%) o'n staff i fynychu cyrsiau Cymraeg ar-lein yn ystod oriau gwaith yn 2020-21. Hefyd fe drefnwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth ac ynganiad Cymraeg i'n holl staff.

2.3. Sefydlwyd 'Sgwrs dros Baned' wythnosol

Gan ein bod ni'n sylweddoli nad oedd y staff, wrth weithio gartref, yn cael cyfleoedd anffurfiol i glywed, siarad ac ymarfer eu Cymraeg yn y swyddfa cynllun agored, yn yr ystafell goffi, neu wrth deithio i gyfarfodydd gyda'i gilydd, fe sefydlwyd 'Sgwrs dros Baned' ('Chat over Coffee') ar-lein. Yma, gall dysgwyr siarad â siaradwyr Cymraeg rhugl mewn awyrgylch hamddenol a meithrin eu sgiliau.

2.4. Cymerwyd rhan yn yr Eisteddfod AmGen

Fe wnaethom gyfraniad sylweddol at Y Lle Hanes yn yr Eisteddfod AmGen, sef Eisteddfod Genedlaethol rithiol 2020. Darparwyd arddangosfeydd, gweithgareddau i'r plant a fideos byr am ein gwaith, a threfnwyd trafodaeth banel ar ddyfodol addoldai. Rhoddodd yr eisteddfod gyfle i'n staff ddefnyddio eu Cymraeg yn y gweithle er gwaethaf y flwyddyn heriol, ac rydym yn falch o'r tri dysgwr a gyfrannodd ddarnau byr ar gyfer rhaglen Y Lle Hanes a Maes D.

2.5. Defnyddiwyd ein hadnoddau ar gyfer cyfres 'Hewlfa Drysor' S4C

Cafodd dau ffotograff du a gwyn cydraniad uchel – y naill o Gastell Mathrafal a'r llall o'r Old Harp Inn, Llanfair Talhaearn – eu cyflenwi a'u trwyddedu i'r cwmni cynhyrchu Avanti Media i'w defnyddio mewn dwy raglen yng Nghyfres 'Hewlfa Drysor' S4C. Gwnaed yr ymholiad cyfan, gan gynnwys gohebiaeth, ffurflenni, anfonebu a thrwyddedu, yn ogystal â'r gyfres deledu derfynol, yn llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.6. Hyrwyddwyd Diwrnod Hawliau'r Gymraeg

Cefnogwyd Diwrnod Hawliau'r Gymraeg' (7 Rhagfyr 2020) ar gyfryngau cymdeithasol.

2.7. Darparwyd llywodraethu da a sicrhawyd gwelliannau parhaus

Parhawyd i fynychu cyfarfodydd a gweithdai wedi'u trefnu gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â chyda chyd Swyddogion Iaith Gymraeg. Hefyd ymatebwyd i astudiaeth thematig Comisiynydd y Gymraeg ar effaith COVID-19 ar ddarpariaeth Gymraeg sefydliadau a chefnogwyd ymchwil Prifysgol Bangor i effaith gweithio gartref ar ddefnydd staff o'r Gymraeg. Yn olaf, mynychwyd rhannau perthnasol y gynhadledd "Gofid neu Gyfle? Y Gymraeg yn y 'Normal Newydd'" a drefnwyd gan Academi Hywel Teifi a Phrifysgol Abertawe.

Hoffem ddiolch o galon i **Angharad Williams**, Rheolwr Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Swyddog y Gymraeg, am ei gwaith rhagorol ac am hyrwyddo'r Gymraeg yn y Comisiwn Brenhinol yn ystod y 18 mlynedd ddiwethaf.

3. Blaenoriaethau ar gyfer 2020-21

Gan adeiladu ar arferion sydd eisoes wedi'u gwreiddio, rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o safon uchel yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd y Grŵp Monitro i weithredu, gan ddsbarthu canllawiau a rhoi gwybod i'r staff am weithgareddau. Llwyddwyd i gwblhau'r gweithgareddau cyfredol yn ein cynllun gweithredu, a gawsai ei gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol a'r Comisiynwyr. Bydd gwaith pellach ar rai o'r nodau strategol yn cael ei gario ymlaen i 2021-22.

Yn ystod 2020-21 fe ganolbwyntiodd y Comisiwn ar y blaenoriaethau a ganlyn:

3.1. Parhau i gefnogi staff i'w galluogi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Rydym wedi parhau i ddarparu cefnogaeth. Darparwyd arweiniad ar weithdrefnau i'w dilyn wrth weithio gartref. Hefyd cynhaliwyd ein sesiwn Holi ac Ateb flynyddol i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, esbonio sut i weithredu yn unol â'r Safonau, a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Rhoddwyd gwybod am Safonau'r Gymraeg i bob aelod staff newydd yn ystod eu rhaglen sefydlu.

3.2. Parhau i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i'r staff

Cynigiwyd rhaglen ar-lein lawn o hyfforddiant i'r staff, ar wahanol lefelau o rugledd, yn ystod amser gwaith ac am ddim. Hefyd ymatebwyd i awgrym a wnaed yn ystod ein sesiwn Holi ac Ateb flynyddol gyda'r staff drwy gyflwyno sgysiau staff drwy gyfrwng y Gymraeg. Er eu bod wedi'u hanelu at ddysgwyr sy'n dymuno dechrau defnyddio'r Gymraeg fel iaith gwaith, mae siaradwyr Cymraeg wedi cael budd hefyd gan eu bod yn cael cyfle i ddefnyddio amrywiaeth ehangach o dermau wrth drafod gwaith.

3.3. Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector treftadaeth

Pryd bynnag y bo modd, fe fydd y Comisiwn yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o fewn ein sector, gan gynnwys mewn cynadleddau proffesiynol.

4. Cydymffurfio a hyrwyddo

Cawsom gyfle yn ystod yr ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer (Rhagfyr 2020 hyd Fai 2021) i edrych o'r newydd ar y ffordd y cydymffurfiwn â'n Safonau ac i ystyried a oes meysydd lle gallwn gyflwyno gwelliannau.

4.1. Darparu Gwasanaethau (Safonau 1-9; 11-14; 16-17; 19-22; 24-34; 36; 43-48; 51-55; 57-60; 63-66; 72-73A; 75-80; 82)

Bydd y Comisiwn yn darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd a pharhaodd i wneud hynny er gwaethaf y pandemig COVID-19. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaeth cyfartal drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Manylir ymhellach ar ein harferion gwaith arferol a'r gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer ein cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith yn ein Polisi Iaith Gymraeg (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/polisi-iaith-gymraeg-2020-22/>).

Yn y paragraffau sy'n dilyn (4.1.1 – 4.1.3), rhoddir enghreifftiau o sut y bydd y Comisiwn yn cydymffurfio â'r Safonau ac yn hyrwyddo ei wasanaethau Cymraeg.

4.1.1. Gohebiaeth a galwadau ffôn

Pan dderbyniwn ohebiaeth yn y Gymraeg, byddwn yn ateb, os oes angen ateb, o fewn yr un amser targed ag yr atebwn ohebiaeth a dderbynnir yn y Saesneg. Bydd gohebiaeth gennym yn nodi ein bod ni'n croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg a bydd ein llofnodion electronig dwyieithog yn nodi a yw'r aelod staff yn siarad Cymraeg.

Er mwyn sicrhau y gall ein staff ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog, cynigir hyfforddiant i staff y mae angen cymorth arnynt. Mae system awtomataidd y Comisiwn ar gyfer ei brif rif ffôn yn rhoi dewis i alwyr siarad ag aelod staff yn y Gymraeg ac mae gan ein holl ffonau ateb negeseuon wedi'u recordio dwyieithog. Nid yw'r angen i weithio gartref o ganlyniad i COVID-19 wedi effeithio ar y prif rif ffôn, ac yn ystod 2020-21 fe dderbyniwyd 100 o ymholiadau ffôn yn y Gymraeg (14.5%). Sut bynnag, caiff galwadau i linellau uniongyrchol staff eu hanfon ymlaen i'w ffonau personol ac ni allant wahaniaethu rhwng galwadau gwaith a phreifat (neu gall aelodau eraill o'r

teulu eu hateb), felly mae'n bosibl i hyn gael effaith ar allu'r staff i gydymffurfio'n llawn drwy ateb y ffôn yn ddwyieithog bob tro.

4.1.2. Cyfarfodydd, ymweliadau a digwyddiadau i'r cyhoedd

Oherwydd COVID-19, nid oedd unrhyw gyfarfodydd personol, ymweliadau na digwyddiadau cyhoeddus eleni. Cafodd y rhain i gyd eu symud ar-lein. Er enghraifft, defnyddiwyd y platfform Zoom ar gyfer ein cynhadledd Gorffennol Digidol ym mis Chwefror 2021 gan fod hwn yn caniatáu i ni gynnig cyfieithu ar y pryd ar gyfer unrhyw gyflwyniad Cymraeg neu gyfraniad Cymraeg gan aelod o'r gynulleidfa. Fel rhan o'n rhaglen estyn-allan, paratowyd rhaglen o sgysiau ar-lein ac ymweliadau grŵp rhithiol. (I gael mwy o wybodaeth am ein cyfraniadau at yr Eisteddfod AmGen, gan gynnwys arddangosfa a sgysiau drwy gyfrwng y Gymraeg, gweler 2.4 yn yr adran Uchafbwyntiau uchod.)

Bydd y Comisiwn yn hyrwyddo ei holl ddigwyddiadau ar-lein yn ddwyieithog. Mae newyddlenni ein prosiect CHERISH Iwerddon-Cymru ar newid hinsawdd a ariennir gan yr UE yn parhau i gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal â'r Wyddeleg a'r Saesneg. Eleni fe grëwyd arddangosfa deithiol ddwyieithog i hyrwyddo'r prosiect, sy'n cynnwys barddoniaeth Gymraeg gan Dr Hywel Griffiths (Prifysgol Aberystwyth) o'r tîm CHERISH.

4.1.3. Gwasanaethau ar-lein

Oherwydd effaith COVID-19 ar ein ffyrdd arferol o weithio, bu'n rhaid i ni ddatblygu'n gyflym ddulliau newydd o gyfathrebu â'n defnyddwyr presennol ac o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Fe wnaethom ymrwymo i wneud hynny'n ddwyieithog, a buom yn arbrofi gyda gwahanol blatfformau ac ymgyrchoedd i dynnu sylw at ein gwaith a'n gwasanaethau. Bu cynnydd mawr iawn yn ein cyfathrebiadau ar gyfryngau cymdeithasol, a oedd yn cynnwys cyhoeddi 85 o flogiau dwyieithog yn ystod y flwyddyn. Cawsom sylw gan y wasg yn sgil rhai o'r rhain, er enghraifft, ar S4C pan aeth y rhaglen Heno ar drywydd ein stori am y fila Rufeinig fwyaf anghysbell yng Nghymru.

Hefyd fe gyhoeddwyd 38 o fideos newydd ar ein sianel YouTube, 19 yn Gymraeg a 19 yn Saesneg. Roedd y rhain yn amrywio o ffilmiau byrion yn dangos i ddefnyddwyr sut i wneud y defnydd gorau o'n gwefannau i

recordiadau ffrydio-byw o ddarlithiau cyhoeddus. Roedd cynnydd o 83% yn nifer y troeon y gwylwyd ein fideos (25.4k eleni o'i gymharu ag 13.9k yn 2019-20) wrth i fwy o ddefnydd gael ei wneud o'n sianel YouTube ac o ganlyniad i farchnata'r fideos.

Cafodd ymgyrchoedd eu cynnal ar gyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio hashnodau Cymraeg fel #LlunDyddLlun a #MeddwlMawrth ar draws ein cyfrifon Cymraeg a Saesneg. Postiwyd 857 o bostiadau dwyieithog ar Facebook, ac fe wnaethom drydaru ac ateb fwy na 5,900 o weithiau ar draws ein pedwar cyfrif Twitter dwyieithog. Drwy ganolbwyntio ar gyfathrebu â'n cynulleidfaoedd ar y platfformau y dewisant eu defnyddio, fe welwyd cynnydd sylweddol yn nifer ein dilynwyr: 11% yn fwy ar Facebook (8,584 i 9,514), a 34% yn fwy ar Twitter (8,445 i 11,338).

4.2. Llundio Polisi (Safonau 84-89; 91-93)

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i'r iaith Cymraeg yn ei holl bolisiau a gweithgareddau.

4.2.1. Cyfrifoldeb

Y Tîm Gweithredol (uwch reolwyr) sy'n gyfrifol am fesur a phwyso polisiau, mentrau a gwasanaethau newydd neu ddiwygiedig cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan ein Bwrdd Comisiynwyr.

4.2.2. Llundio, adolygu neu ddiwygio polisi

I sicrhau y bydd polisiau, mentrau a gwasanaethau newydd yn gyson â gofynion Safonau'r Gymraeg, bydd y Comisiwn, wrth lunio, adolygu neu ddiwygio polisi, yn ystyried yr effeithiau, os oes rhai (cadarnhaol neu negyddol), ar gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg.

Byddwn yn ystyried sut y gallwn wneud penderfyniad polisi a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a byddwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cafodd Fframwaith Asesiadau o Effaith ar yr Iaith Gymraeg ei sefydlu wrth roi'r Safonau ar waith. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, gwnaed asesiad o'r fath o Bolisi Recriwtio newydd y Comisiwn.

4.3. Gweithredol (Safonau 94-108; 110-12; 114-17; 120-33; 135-39)

I sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau gweithredol, bu'r Comisiwn yn adolygu ac yn diwygio sawl dogfen a pholisi mewnol, ac yn diweddarau gweithdrefnau, cyn y dyddiadau gosod yn ein Hysbysiad Cydymffurfio. Eleni fe ddiweddarwyd ein Polisi Iaith Gymraeg ar gyfer 2020-22.

4.3.1. Darparu dogfennau dwyieithog at ddefnydd ein staff

Roedd yr holl ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn y Safonau perthnasol ar gael i'r staff yn Gymraeg a Saesneg. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, rhoddwyd dewis i'r un aelod staff newydd dderbyn dogfennau cyflogaeth yn Gymraeg.

4.3.2. Sgiliau Cymraeg y staff

Ymgwymerwyd ag archwiliad sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Gweler adran 5.2 am fanylion pellach.

O ran gofynion swyddi, mae gan 25 aelod staff (71%) y lefel leiaf o Gymraeg sydd ei hangen ar gyfer eu swydd. Mae hyn 1% yn fwy na'r llynedd. Sut bynnag, mae'n cymharu â 14 (44%) yn unig yn 2017.

4.3.3. Hyfforddiant iaith Gymraeg (Safonau 126-27)

Bydd y Comisiwn yn annog staff yn gryf i ddysgu Cymraeg ac yn eu helpu i feithrin eu sgiliau iaith. Yn ystod y cyfnod adrodd:

- Mynychodd 10 aelod staff (29%) wersi Cymraeg wythnosol yn ystod oriau gwaith, 9% yn llai na'r llynedd.
- Mynychodd tri aelod staff yr Ysgol Haf flynyddol yn Aberystwyth.

4.4. Cadw Cofnodion (Safonau 141-48)

Mewn egwyddor, parheir i ddefnyddio system ffeilio gofrestrfa gyfredol y Comisiwn i gadw'r holl gofnodion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg fel y nodir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio. Sut bynnag, gan fod y staff yn gweithio gartref, ni ddigwyddodd hyn yn ystod 2020-21, ond mae systemau ar-lein yn cael eu diweddarau i ganiatáu cyrchu o bell. Mae'r staff yn parhau i gadw cofnodion, a gaiff eu ffeilio cyn gynted ag y bo modd.

4.5. Atodol (Safonau 149-68)

4.5.1. Mae'r dogfennau a ganlyn ar gael ar wefan y Comisiwn:

- **Hysbysiad Cydymffurfio** (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/>), ac mae copi printiedig ar gael yn y Llyfrgell ac Ystafell Ymchwil at ddefnydd y cyhoedd (Safonau 149, 155, 161, 167).
- **Dogfen Cydymffurfio** (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/dogfen-cydymffurfio/>), sy'n esbonio sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â hwy (Safonau 153, 159, 165).
- **Polisi Cwynion** (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/polisiau/polisi-cwynion/>), sy'n esbonio sut y gellir cysylltu â ni i fynegi pryder neu wneud cwyn, a'r drefn y bydd y Comisiwn yn ei dilyn wrth ystyried cwynion (Safonau 150, 156, 162).
- **Polisi Iaith Gymraeg** (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/polisi-iaith-gymraeg-2020-22/>) (Safon 151).
- **Yr Adroddiad Blynyddol hwn** (<https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/cydymffurfio-a-safonau-gymraeg-adroddiad-blynyddol-2020-21/>) (Safonau 152, 158, 164).

4.5.2. Sicrhau bod Safonau'r Gymraeg yn cael eu monitro'n effeithiol

Bydd monitro'n cael ei wneud yn anffurfiol, gan aelodau unigol y Grŵp Monitro, ac yn ffurfiol mewn cyfarfodydd a gynhelir bob tri mis. Adroddir i'r Tîm Gweithredol a'r Comisiynwyr. Hefyd mae'r Grŵp Monitro wedi paratoi cynllun gweithredu i'w helpu i gyflawni ei flaenoriaethau. Yn ystod blwyddyn yr adroddiad, roedd yn anos ymgymryd â monitro anffurfiol gan fod y staff yn gweithio gartref. Sut bynnag, o fewn y cyfyngiadau hynny, buom yn monitro cystal ag y gallem ac rydym yn hyderus ein bod wedi cydymffurfio.

5. Adrodd statudol

5.1. Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd.

5.2. Sgiliau Cymraeg y staff

Cynhaliwyd archwiliad sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Gofynnwyd i'r staff hunanasesu eu sgiliau iaith mewn perthynas â gwrando/siarad, darllen/deall ac ysgrifennu (lefel 0 = dim sgiliau Cymraeg, 5 = hyfedr) gan ddefnyddio'r datganiadau 'Gallu Gwneud' ar y Fframwaith ALTE. Mae'n dda gennym adrodd i lefelau sgiliau ein staff gynyddu eto eleni, er gwaethaf effaith y pandemig COVID-19.

Roedd y canlyniadau fel a ganlyn: allan o 35 staff a oedd yn cael eu cyflogi ar y pryd:

- roedd gan 35 ohonynt (100%) ryw lefel o sgil yn y Gymraeg;
- roedd 21 ohonynt (60%) wedi asesu bod ganddynt sgiliau ar lefel 3 ac uwch (cynnydd o 6% ers y llynedd);
- roedd 14 ohonynt (40%) wedi asesu bod eu sgiliau yn is na lefel 3 (gostyngiad o 6% ers y llynedd);
- roedd 5 ohonynt (14%) wedi asesu bod eu sgiliau wedi gwella ers yr archwiliad diwethaf yn 2019.

5.3. Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod adrodd fe gafodd cwrs ynganu'r Gymraeg a ohiriwyd ym mis Mawrth oherwydd COVID-19 ei gynnal ym mis Mehefin 2020. Fe'i mynychwyd gan 30 aelod staff (86%).

5.4. Hyfforddiant a ddarparwyd yn y Gymraeg

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni ddarparwyd unrhyw gyrsiau hyfforddi (yn y Gymraeg na'r Saesneg) ar y pynciau sydd wedi'u rhestru yn Safonau 124 a 125.

5.5. Recriwtio

5.5.1. Staff

Cafodd dwy swydd wag eu hysbysebu yn ystod y cyfnod adrodd. Dim ond un ohonynt a hysbysebwyd yn allanol. Nodwyd yn yr hysbysebion fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y ddwy swydd (ar lefel 4 yn achos un ac ar lefel 3 yn achos y llall).

Yn ystod rhaglen sefydlu'r sawl a benodwyd yn allanol fe amlinellwyd y dyletswyddau a chyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg. Cynigiwyd y dogfennau cyflogaeth yn Gymraeg hefyd.

5.5.2. Comisiynwyr

Llwyddodd y Comisiwn i recriwtio dau Gomisiynydd newydd. Yn yr hysbysebion ar gyfer y ddwy swydd, nodwyd bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol hyd at lefel 2 o leiaf. Un ohonynt a oedd yn bodloni'r gofyniad hwn.

6. Blaenoriaethau ar gyfer 2021-22

Bydd y blaenoriaethau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys y canlynol:

6.1. Parhau i gefnogi'r staff

Byddwn yn parhau i roi cymorth i'r staff i'w galluogi i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wrth weithio gartref ar yr adeg anodd hon, ac i helpu aelodau staff newydd eu penodi i wreiddio'r Safonau.

6.2. Parhau i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i'r staff

Byddwn yn parhau i ddarparu amrywiaeth o ddewisiadau hyfforddi i wella sgiliau Cymraeg ein staff (gan ddefnyddio dysgu o bell hyd nes bod y staff yn gallu mynychu dosbarthiadau eto).

6.3. Adolygu ein gwasanaethau cyfieithu

Byddwn yn adolygu ein gwasanaethau cyfieithu i sicrhau eu bod yn parhau i gwrdd ag anghenion y Comisiwn.

6.4. Hybu defnyddio'r Gymraeg ar draws y sector treftadaeth

Bydd y Comisiwn yn parhau i hybu defnyddio'r Gymraeg yn y sector drwy gynnal digwyddiadau a chynadleddau pan fydd hynny'n bosibl. Cynigiwn hefyd arweinyddiaeth mewn perthynas â rheoli data'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, gan gynnwys monitro Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol, a byddwn yn hybu defnyddio'r Gymraeg ar draws yr amgylchedd hanesyddol wrth gyflawni ein rôl ym maes safonau data.

Atodiad 1: Rhestr wirio hunanreoleiddio

CADW COFNODION	Ydyw / Nac ydyw	Sylwadau / Angen gweithredu
Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) yn:		
Cadw cofnod o nifer y cwynion y mae'n ei chael ynghylch cydymffurfio â'r safonau;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig. Gweler yr Adroddiad Blynyddol.
Cadw copi o bob cwyn ysgrifenedig y mae'n ei chael ynghylch cydymffurfio â'r safonau;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig. Gweler yr Adroddiad Blynyddol.
Cadw copi o bob cwyn ysgrifenedig y mae'n ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig. Gweler yr Adroddiad Blynyddol.
Cadw cofnod o'r camau a gymerodd i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi.	Ydyw	https://cbhc.gov.uk/amdano-m-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/dogfen-cydymffurfio
Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) yn:		
Cadw cofnod o nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg, a lefel y sgiliau hynny os yw'r wybodaeth ar gael;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.
Cadw cofnod o bob asesiad o'r sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddi newydd a gwag;	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.
Cadw cofnod o nifer y swyddi newydd a gwag a aseswyd fel bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Adroddiad Blynyddol Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2020-2021

ddymunol, ddim yn angenrheidiol, a bod angen dysgu Cymraeg;		
Cadw cofnod o nifer (a chanran os yn berthnasol) y staff wnaeth fynychu hyfforddiant penodol sy'n ofynnol ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu, delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch).	Ydyw	Fe'i cedwir ar Ffeil Gofrestredig.

HYRWYDDO TREFNIADAU	Ydyw / Nac ydyw	Sylwadau / Angen Gweithredu
Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) wedi:		
Cyhoeddi dogfen ar ei wefan yn cofnodi'r holl safonau y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (e.e. drwy gyhoeddi copi o'i hysbysiad cydymffurfio);	Ydyw	https://cbhc.gov.uk/amdanomni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg
Cyhoeddi gweithdrefn gwyno ar ei wefan.	Ydyw	https://cbhc.gov.uk/amdanomni/gwybodaeth-gorfforaethol/polisiau/polisi-cwynion
Mae'r weithdrefn gwyno'n nodi sut y bydd CBHC yn:		
Delio â chwynion ynghylch sut y mae'n cydymffurfio â'r safonau;	Ydyw	
Hyfforddi staff i ddelio â'r cwynion.	Ydyw	
Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) wedi sefydlu trefniadau ar gyfer:		
Goruchwylio'i gydymffurfiaeth â'r safonau y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy;	Ydyw	Y Grŵp Monitro Iaith Gymraeg.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Adroddiad Blynyddol Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2020-2021

Hybu'r gwasanaethau Cymraeg y mae'n eu cynnig yn unol â'r safonau;	Ydyw	
Hwyluso defnyddio'r gwasanaethau Cymraeg y mae'n eu cynnig yn unol â'r safonau.	Ydyw	
Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) wedi:		
Cyhoeddi dogfen ar ei wefan sy'n cofnodi ei threfniadau ar gyfer goruchwyllo, hybu a hwyluso;	Ydyw	https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/polisi-iaith-gymraeg-2020-22
Cyhoeddi dogfen ar ei wefan sy'n esbonio sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'r safonau y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Ydyw	https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/dogfen-cydymffurfio

ADRODDIAD BLYNYDDOL	Ydyw / Nac ydyw	Sylwadau / Angen gweithredu
Mae'r Comisiwn Brenhinol (CBHC) wedi:		
Cyhoeddi adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg ar ei wefan erbyn 30 Medi (dim hwyrach na 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol);	Ydyw	https://cbhc.gov.uk/amdanom-ni/gwybodaeth-gorfforaethol/y-gymraeg/cydymffurfio-a-safonau-gymraeg-adroddiad-blynyddol-2020-21/
Rhoi cyhoeddusrwydd i'r adroddiad blynyddol.	Ydyw	Hysbysiad ar Twitter a Facebook ac i'r rhwydwaith Cyfeillion.
Mae'r adroddiad blynyddol yn:		
Delio â'r modd y gwnaeth gydymffurfio â'r gwahanol ddsbarthiadau o safonau a osodwyd arno;	Ydyw	

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Adroddiad Blynyddol Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2020-2021

Cynnwys nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg;	Ydyw	
Cynnwys nifer (a chanran os yn berthnasol) y staff wnaeth fynychu hyfforddiant penodol sy'n ofynnol ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu, delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch);	Ydyw	
Cynnwys nifer y swyddi newydd a gwag a aseswyd fel bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn angenrheidiol, a bod angen dysgu Cymraeg;	Ydyw	
Cynnwys nifer y cwynion a gafodd y sefydliad ynghylch pob dosbarth gwahanol o safonau.	Ydyw	